Rhif 11 Ionawr 2026

Un Llais Cymru
One Voice Wales

# GRANTIAU & CHYFLEOEDD ARIANNOL POSIB

## Y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol:

Cyllid gwerth hyd at £20,000 sydd ar gael i gefnogi sefydliadau dan arweiniad y gymuned i berchenogi ac addasu adeiladau hanesyddol ar gyfer defnydd newydd, cynaliadwy. Yng Nghymru, gellir cyflwyno ceisiadau gwerth hyd at £7,500 ar unrhyw adeg. Ystyrir ceisiadau gwerth mwy na £7,500 gan y Panel Grantiau chwarterol. Ffurflen Mynegi Diddordeb: https://ahfund.org.uk/what-we-do/fund/eligibility-deadlines

## Sea-Changers (Coastal Fountain Fund) 2026

Nod y gronfa yw amddiffyn cynefinoedd arfordirol rhag effeithiau niweidiol poteli dŵr plastig untro, trwy helpu cymunedau i brynu ffynhonnau ail-lenwi poteli dŵr ar gyfer ardaloedd prysur neu ardaloedd ag arwyddocâd amgylcheddol ar yr arfordir.

## Naturesave Trust

Cyfle am Gyllid i Gymunedau Arfordirol– Cadwraeth Forol

Mae moroedd glân, cydnerth yn hanfodol i'n cymunedau, i'n heconomi ac i'n dyfodol

. Anogir cynghorau arfordirol i ystyried sut y gallai prosiectau lleol gyfrannu at gadwraeth forol a manteisio ar y cyfle cyllido hwn.

## Grant Cynhwysiant Digidol Cymru – Llywodraeth Cymru

Bydd Grant Cynhwysiant Digidol Cymru Llywodraeth Cymru yn cefnogi prosiectau lleol sy'n helpu pobl i oresgyn rhwystrau i fynd ar-lein trwy wneud y canlynol:
Gwella sgiliau digidol sylfaenol
Meithrin yr hyder i ddefnyddio technoleg
Darparu mynediad lleol, offer a chymorth.
**Cyllid a gynigir:**
**Grant Craidd** – Prosiectau hirdymor (hyd at dair blynedd) yn seiliedig ar angen lleol
**Grant Arloesi** – Prosiectau byrdymor sy'n treialu syniadau newydd, creadigol
**Cyfnod ymgeisio'n dechrau**: 17 Tachwedd 2025
**Dyddiad cau**: 9 Chwefror 2026

## Alpkit

Cynigir grantiau gwerth hyd at £500 ar gyfer gweithgareddau a phrofiadau awyr agored. Diben yr arian hwn yw annog mwy o bobl i fod yn egnïol ac i gysylltu â'r awyr agored.

Yn ogystal, cefnogir prosiectau amgylcheddol megis rhandiroedd a gerddi cymunedol neu grantiau i helpu i ddad-ddofi coetiroedd ac amddiffyn ein mannau gwyllt.

Un Llais Cymru

One Voice Wales

# GRANTIAU & CHYFLEOEDD ARIANNOL POSIB

## Cyfleoedd Rhanbarthol

### Caerdydd – Parodrwydd am Stormydd a'u Heffaith

Cyfle cyllido dewisol i gefnogi sefydliadau y mae stormydd diweddar wedi effeithio arnynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Cynigir grantiau gwerth hyd at £2,000.

## Rhaglen Gymunedol Wickes

Cronfa gynnyrch unswydd i gefnogi mentrau lleol trwy eu helpu i gynnal a chadw ac adnewyddu mannau cymunedol. Cronfa sydd ar agor i bob elusen a grŵp cymunedol lleol sy'n chwilio am gymorth â phrosiectau gwella

## Dŵr Cymru

Cronfa sy'n cynnig grantiau gwerth hyd at £5,000 a chyfle i wneud mwy o wahaniaeth mewn cymunedau. Mae'r gronfa ar agor bellach i brosiectau ag amcanion cymorth iechyd, llesiant, costau byw a/neu amcanion amgylcheddol sy'n cynnig budd i'r gymuned.

## Arian i Bawb Cymru

Darperir arian ar gyfer prosiectau sy'n dod â phobl at ei gilydd ac yn gwella cymunedau ledled Cymru. Gallwch wneud cais am grant gwerth rhwng £300 ac £20,000 ar gyfer prosiectau sy'n para hyd at ddwy flynedd.

**Yr hyn y gellir ei ariannu**

Gellir defnyddio'r arian i wneud y canlynol:

- dechrau gweithgaredd newydd neu barhau ag un sydd eisoes yn bodoli
- helpu eich sefydliad i addasu i heriau newydd

Ariennir prosiectau sy'n:

- dod â phobl at ei gilydd i feithrin perthnasoedd cryf mewn cymunedau ac ar draws cymunedau
- gwella llefydd a mannau sy'n bwysig i gymunedau
- helpu mwy o bobl i gyrraedd eu potensial, trwy gymorth cynnar
- cefnogi pobl, cymunedau a sefydliadau sy'n wynebu mwy o alw a mwy o heriau oherwydd yr argyfwng costau byw.

## Dulliau Defnyddiol i Chwilio am Arian

Mae defnyddio peiriannau chwilio arian yn gallu eich helpu i ddod o hyd i gyfleoedd ariannu i'ch cyngor a grwpiau cymunedol.Mae nifer o Gronfeydd Buddion Cymunedol – cyfraniadau ariannol a wneir gan ddatblygwyr (e.e. ffermydd gwynt) i gefnogi prosiectau lleol.

**Sefydliad Cymunedol yng Nghymru**

**Cyllido Cymru**